**Pwyllgor Datblygu Economaidd EDC-01-01(p4)**

**Dyddiad:** **17 Ionawr 2001**

**Lleoliad:** **Ystafell Bwyllgora 1, Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

**Teitl:** **GWELLA'R DATA ECONOMAIDD AR GYFER CYMRU**

**Pwrpas**

**1.** Pwrpas y papur hwn yw rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am bapur EDC-16-00 (p7), Gwella'r Data Economaidd ar gyfer Cymru, a geir yn atodiad 1.

**Cefndir**

2. Roedd papur EDC-16-00 (p7), 'Gwella'r Data Economaidd ar gyfer Cymru' (atodiad 1) yn rhoi trosolwg i'r Pwyllgor o'r mesurau a roddwyd ar waith eisoes, neu a oedd yn cael eu hystyried, i wella'r data sydd ar gael ar gyfer llunio polisi ar gyfer datblygu economaidd a'r farchnad waith yng Nghymru, a monitro ei effaith. Ni chafodd y Pwyllgor gyfle i drafod y papur yn ei gyfarfod ym mis Tachwedd ac mae'r eitem felly wedi cael ei chynnwys ar agenda'r cyfarfod ar 17 Ionawr. Mae'r papur hwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am yr hyn a wnaed ers mis Tachwedd.

**Gwella'r Arolwg o'r Llafurlu**

3. Cafwyd trafodaethau gydag ONS ynghylch manylion y gwelliannau i'r arolwg. Cytunwyd hefyd y bydd yr arolwg ar ei newydd wedd yn cynnwys cwestiynau am hunaniaeth Gymreig, ethnigrwydd a'r iaith Gymraeg, fel yr Arolwg o'r Llafurlu (LFS) yn Lloegr a'r Alban.

**Astudiaeth Gwmpasu ONS**

4. Mae sawl cyfarfod wedi'i gynnal, neu wedi'i drefnu, gyda'r ONS i drafod yr argymhellion yn Adroddiad ONS yn fwy trylwyr. Nodir hynt pob argymhelliad mewn italig:-

**Gwelliannau byr-dymor y gellir eu cyflawni yn ystod y 2-3 blynedd nesaf.**

- gwella'r sampl o Gymru yn Ymchwiliad Busnes Blynyddol 2001 – *cafwyd cyfarfod gyda'r ONS ac maent wedi cytuno i roi manylion y sampl presennol o Gymru i helpu i asesu beth fyddai gwerth unrhyw welliannau posibl, a beth fyddai'r strwythur mwyaf effeithiol. Bydd ONS hefyd yn asesu pa effaith fydd gwella'r sampl yn ei gael ar y gwallau samplo. Mae angen i'r pwysau ychwanegol o ran cydymffurfio, yn enwedig ar fusnesau bach, fyddai'n deillio o'r gwelliannau, fod yn rhan o'r broses benderfynu;*
- amcangyfrifon cynhyrchiant ar gyfer y diwydiannau cynhyrchu, gan ddefnyddio gwybodaeth o'r Mynegai Cynhyrchu chwarterol ar gyfer Cymru – *bydd y rhain yn cael eu prynu. Y gost fydd £1k y flwyddyn;*
- amcangyfrifon newydd o gyfraniad Cymru i allforion o'r DU ar gyfer rhai diwydiannau, gan ddefnyddio gwybodaeth o'r ymchwiliad misol o gynhyrchiant – *nid yw'n flaenoriaeth o ystyriaeth y*

*data a gafwyd yn ddiweddar oddi wrth Tollau Tramor a Chartref;*

- astudiaeth o'r posibilrwydd o lunio Mynegai o Ddosbarthiad ar gyfer Cymru i'w gyhoeddi'n chwarterol – *mae manylion am y costau, y manteision a'r amserlen wedi dod i law oddi wrth ONS*
- gwella'r sampl o Gymru yn ymchwiliadau trosiant misol a chwarterol ONS er mwyn medru paratoi data chwarterol am drosiant y sector gwasanaeth ar sail y prisiau cyfredol ar gyfer y diwydiannau gwasanaeth yng Nghymru – *cafwyd cyfarfod gyda'r ONS a gadarnhaodd bod hyn yn un o'r elfennau (20 y cant) o'r Mynegai o Wasanaethau. Bydd ONS yn paratoi dadansoddiadau o ddata o Gymru o'r ymchwiliadau presennol, ond bydd y penderfyniad a ddylid neu beidio ychwanegu at y sampl o Gymru yn yr ymchwiliadau hyn yn cael ei ystyried yng nghyd-destun astudiaeth o'r posibilrwydd o lunio Mynegai o Wasanaethau ar gyfer Cymru;*
- llunio mynegai chwarterol o werthiant adwerthol (RSI) yng Nghymru – *cafwyd cyfarfod gyda'r ONS. Cawsant gadarnhad y byddai elfen adwerthol y Mynegai o Ddosbarthiad yn brocsi rhesymol ar gyfer RSI. Gellid trafod hyn yn fwy manwl yn yr astudiaeth o'r posibilrwydd o lunio Mynegai o Ddosbarthiad;*
- Yng ngwanwyn 2001, bydd gwybodaeth newydd ar gael sy'n deillio o'r arolwg o'r trosiant adwerthol yng Nghymru yn 1997-98 – *dim camau pellach;*
- datblygu sampl ychwanegol ar gyfer ymchwiliad blynyddol y Gofrestr Fusnes Ryng-adrannol (IDBR) i wella'r Gofrestr – *cafwyd cyfarfod gyda'r ONS. Byddant yn paratoi pecyn o ddadansoddiadau chwarterol ar gyfer Cymru o'r IDBR a ffynonellau eraill e.e. databas Dun a Bradstreet. Byddant hefyd yn ystyried goblygiadau Adolygiad Sicrwydd Ansawdd yr IDBR i Gymru a data o Gymru, a byddant yn ymchwilio ymhellach yw'n werth gwneud gwelliannau Cymreig i'r ARI;*

<u>**Gwelliannau hir-dymor**</u>

- datblygu Mynegai o Wasanaethau ar gyfer Cymru. Bob mis, mae ONS yn datblygu Mynegai o Wasanaethau pris cyson ar gyfer y DU i gyd-fynd â'r Mynegai Cynhyrchu – *cyfarfod i'w drefnu gyda'r ONS;*
- trafodaeth bellach gyda'r ONS i ystyried yr amser, y gost, a pha mor ddichonol yw datblygu GDP chwarterol ar gyfer Cymru – *cyfarfod wedi'i drefnu gyda'r ONS ddiwedd mis Ionawr;*
- bod y Cynulliad Cenedlaethol yn datblygu strategaeth hir-dymor ar gyfer ystadegau economaidd, gan ddefnyddio'r wybodaeth fanylach yn yr astudiaeth gwmpasu ac yn comisiynu ONS i ymchwilio i ddatblygiadau penodol – *ar y gweill.*

**Cysylltiad gyda'r Strategaeth Datblygu Economaidd Genedlaethol**

2. Er bod y Strategaeth yn ei dyddiau cynnar o hyd bydd nifer o'r mesurau a nodir uchod yn help i gael gwybodaeth ar gyfer y Strategaeth a monitro ei heffaith trwy asesu'r cynnydd yn erbyn targedau y gellir eu mesur. Er enghraifft :-

    - bydd yr Arolwg o'r Llafurlu ar ei newydd wedd yn darparu gwybodaeth fwy dibynadwy ar weithgarwch economaidd, cyflogaeth, diweithdra, cymwysterau a chyfle cyfartal ar lefel Cymru gyfan ac yn rhanbarthol;
    - mae'r Mynegai Cynhyrchu yn rhoi gwybodaeth reolaidd am weithgarwch y sector hwn yng Nghymru o'i gymharu â rhannau eraill y DU. Byddai datblygu mynegeion ar gyfer y sectorau dosbarthu a gwasanaeth yn sicrhau bod gwybodaeth debyg ar gael ar gyfer y sectorau hyn;
    - byddai gwella'r ABI yn mireinio'r wybodaeth am strwythur y diwydiant yng Nghymru a byddai hefyd yn gwella'r wybodaeth sylfaenol fyddai'n bwydo i'r GDP a mesurau eraill.

**Cysylltiad gydag adolygiad y Pwyllgor Datblygu Economaidd o'r Gwasanaethau Cynnal a Datblygu Busnesau.**

2. Mae EDC-19-00(p6), 'Adolygiad o'r Gwasanaethau Cynnal a Datblygu Busnesau' yn cyfeirio at yr angen i'r Cynulliad Cenedlaethol 'sefydlu systemau i wella'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer llunio polisïau.' Byddai'r datblygiadau a'r cynigion a ddisgrifir yn y papur hwn yn cyfrannu at y broses honno, a byddai'n rhoi gwybodaeth ar gyfer gwaith y Bwrdd Polisi Economaidd arfaethedig, a'r Uned Ymchwil Economaidd, Monitro a Gwerthuso.

**Goblygiadau Ariannol**

3. Mae cyllideb y Cynulliad yn neilltuo symiau o £871,000 yn 2001-2002, £650,000 yn 2002-2003 a £650,000 yn 2003-2004 i ariannu'r gwelliannau i'r Arolwg o'r Llafurlu. Hefyd, mae'r Gweinidog Cyllid wedi cytuno i ddarparu £210,000 yn y flwyddyn ariannol bresennol o'r adnoddau heb eu hymrwymo a gariwyd ymlaen o'r blynyddoedd blaenorol.

**Cydymffurfiaeth**

4. Mae'r mentrau i wella'r ystadegau economaidd yn cael eu cwmpasu gan adrannau 40 ac 85 o Ddeddf Llywodraeth Cymru i'w gweithredu ar y cyd â swyddogaethau statudol dirprwyedig eraill. Nid oes unrhyw faterion o briodoldeb neu reoleidd-dra.

**Camau i'w Cymryd**

5. Bod y Pwyllgor yn nodi bod y broses o wella'r ystadegau economaidd yn parhau ac yn rhoi sylwadau ar y cynlluniau.